



Gwasanaeth Effeithiolrwydd a
Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru

Regional School Effectiveness &
Improvement Service for North Wales

Bwletin GwE

Y Ddeddf Diogelu Data Newydd (GDPR) ★NEWYDD★

Rydym wedi diweddarau ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddf gwarchod data. Gallwch weld y polisi [yma](#). Rydych wedi tanysgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdanysgrifio drwy gysylltu â bwletin@gwegogledd.cymru yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.

Cynnig GwE ar G6

Fel y gwyddoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol mae GwE yn ei gynnis ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw yn G6 [\[https://g6.gwegogledd.cymru\]](https://g6.gwegogledd.cymru).

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i chi gael cyfrif personol yn G6.

Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'.

Digwyddiadau mis Gorffennaf:

DYDDIAD	DIGWYDDIAD	LLEOLIAD
04/07/2018	Cyfnod Sylfaen – Ail Weithdy – Ymresymu Rhifyddol	Plas Heli, Pwllheli
05/07/2018	Foundation Phase Workshop – Numerical Reasoning	Oriel Hotel, Llanellwyr
06/07/2018	Foundation Phase Workshop – Numerical Reasoning	Alyn Waters, Wrecsam
	Foundation Phase Workshop – Numerical Reasoning	Linden House, Yr Wyddgrug
09/07/2018	Professional Learning – Pioneer Work	Canolfan Fusnes Conwy
10/07/2018	Cwricwlwm i Gymru / Curriculum for Wales	Canolfan Fusnes Conwy
	Hyfforddiant NACE i Gydlynwyr MATH (Uwchradd)	Glasdir, Llanrwst
11/07/2018	Rhwydwaith Dysgu Proffesiynol Digidol	Canolfan Fusnes Conwy
	Cwricwlwm i Gymru / Curriculum for Wales	Cei Connah, Campws Llaneurgain

Cyfleoedd gyda GwE

[Rheolwr Cyfathrebu a Rheoli Prosiectau](#) ★NEWYDD★

HYD AT 31/08/2019 – GYDA'R POSIBILRWYDD Y BYDD YN CAEL EI YMESTYN

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch â Sion Wyn Evans, Rheolwr Busnes GwE (Dros dro) ar 0300 500 8087 neu e-bostiwch sionwynevans@gwegogledd.cymru

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

DYDDIAD CAU: 10:00 O'R GLOCH, DYDD IAU, 19 GORFFENNAF 2018

Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Cyfleoedd Hyfforddi Cynradd

[Ysgrifennu: Hyrwyddo Cynnydd yn CA2](#)

Cyfleoedd Hyfforddi Uwchradd

SICRHAU BOD DISGYBLION MAT YN CYRRAEDD EU POTENSIAL LLAWN YN CA2

Mae hwn yn gyfle cyffrous, sydd wedi'i ariannu'n rhannol, i nifer dethol o ysgolion gymryd rhan mewn rhaglen ddatblygu sy'n seiliedig ar ymchwil, gan weithio ochr yn ochr ag Arbenigwr Llythrennedd Cenedlaethol dros ddau dymor. Rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

Mathemateg: Hyrwyddo Cynnydd yn CA2

SICRHAU BOD DISGYBLION MAT YN CYRRAEDD EU POTENSIAL LLAWN YM MATEMATEG CA2

Mae hwn yn gyfle cyffrous, sydd wedi'i ariannu'n rhannol, i nifer dethol o ysgolion gymryd rhan mewn rhaglen ddatblygu sy'n seiliedig ar ymchwil, gan weithio ochr yn ochr â chynghorydd Mathemateg allanol dros dri thymor. Rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

Llafaredd GwE (Oracy@GwE)

CYFLE OLAF I WNEUD CAIS – DYDDIAD CAU – 05/07/2018

Gwahoddir ceisiadau gan ysgolion i gymryd rhan yng Ngharfan 2 y prosiect arbenigol, Llafaredd GwE (Oracy@GwE) sy'n ceisio cael plant i wneud mwy o gynnydd yn eu dysgu drwy ddatblygu Llafaredd. Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

Cyfarfodydd Rhwydwaith y Cyfnod Sylfaen

AR GYFER ARWEINWYR AC ATHRAWON Y CYFNOD SYLFAEN

Yn ystod y cyfarfodydd, trafodir materion a datblygiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol am y cyfnod sylfaen yn ogystal â rhannu astudiaeth achos 'arfer da'. [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Cymhwysedd Digidol

[Cliciwch yma](#) i weld yr holl gyrsiau sydd ar gael.

Mae'n bosib cofrestru ar gyrsiau sydd yn cael eu cynnal o rŵan hyd at ddiwedd Gorffennaf 2018.

Caru Dysgu Drwy Ffilm

DYDD MAWRTH, 10 GORFFENNAF 2018 – GALERI, CAERNARFON

Dyma'r trydydd hyfforddiant fel rhan o bartneriaeth GwE ac Into Film Cymru. Bydd cyfle yn ystod y dydd i gyfarfod a dysgu mwy am waith llysgenhadon Into Film yng Ngogledd Cymru, ac enillwyr gwobrau cenedlaethol o'r rhanbarth. Cynhelir gweithdy animeiddio yn ystod y dydd.

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth ac i gofrestru.

Cynhadledd Penaethiaid Adrannau Cymraeg (Mamiaith)

DYDD MAWRTH, 10 GORFFENNAF 2018 – GLASDIR, LLANRWST
Cyfle i drafod agweddau o ddysgu ac addysgu pwnc benodol a rhannu'r arferion da sydd wedi'u datblygu yn ystod y flwyddyn ac adnoddau/unedau gwaith newydd.

Cofrestrwch drwy gysylltu gyda

eirianharris@gwegogledd.cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â

rhianmairjones@gwegogledd.cymru

Hyfforddiant DPP

I ATHRAWON BAGLORIAETH CYMRU / TYSTYSGRIF HER SGILIAU

Mae'r gwahoddiad ar gyfer unrhyw un sy'n darparu'r Fagloriaeth/Tystysgrif Her Sgiliau, boed hynny'n athrawon sy'n newydd i'r cwrs ym mis Medi, athrawon sydd am ddatblygu hyder, cydlynwyr sy'n teimlo y byddai'r hyfforddiant yn fuddiol neu aelodau UDA a hoffai gael goleuni pellach ar y cwrs.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion ac i gofrestru.

Cynhadledd Haf Dyfodol Byd-Eang GwE

DYDD GWENER, 6 GORFFENNAF 2018 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO

Bydd ein siaradwyr gwadd yn rhannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd ar arwain dysgu ac addysgu sy'n seiliedig ar yr ymchwil diweddaraf, ac ar dystiolaeth a phrofiad ymarferol o weithio gydag ysgolion.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Cynadleddau a Chyfleoedd gan Erail

Cynhadledd Estyn: Gweithredu'r TGAU a

Bagloriaeth Cymru Newydd ★NEWYDD★

Digwyddiad ar gyfer pob arweinydd pwnc ar gyfer Saesneg, Mathemateg, Cymraeg (mamiaith) a Bagloriaeth Cymru

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Cyfleoedd Datblygu Proffesiynol

Prosiect Darllen Ailadroddol Gogledd Cymru

Ydych chi am wella hyder a rhuglder darllen eich disgyblion?

Ydych chi am wario eich GDD ar ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth?

Oes gennych chi ddi-ddordeb mewn bod yn rhan o'r prosiect Darllen Ailadroddol mawr cyntaf yng Nghymru?

Os felly, rydym yn eich gwahodd i ymuno â phrosiect cydweithredol cyffrous...dilynwch y [ddolen hon](#).

Astudiaeth Ddarllen Ar-lein Gogledd Cymru – Prosiect Gweithredu Traws Ranbarthol (NorthWORTS-TRIP) 2018-2019

Ydych chi am wella sgiliau darllen sylfaenol eich disgyblion?

Ydych chi am wario eich GDD ar ymyriad darllen sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd wedi'i arfarnu'n drwyadl mewn ysgolion ar hyd a lled gogledd Cymru? Oes gennych chi ddi-ddordeb mewn gwario llai nag un dyraniad GDD ar raglen ddarllen drwy gymorth cyfrifiadur a allai helpu llawer o ddisgyblion?

Os felly, rydym yn eich gwahodd i ymuno â phrosiect cydweithredol cyffrous...[cliciwch yma](#).

Rhaglen Ar-lein SKILLS

A yw eich ysgol gynradd eisiau gwella ymddygiad disgyblion a'ch perthynas gyda rhieni? Oes gennych chi ddi-ddordeb mewn bod yn rhan o ddadansoddiad peilot bach o raglen ar-lein i gynorthwywyr dosbarth 1:1 a rhieni? Os felly, rydym yn eich gwahodd i ymuno â phrosiect cyffrous...

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

CALU

CYFLE OLAF I YMGEISIO – DYDDIADAU CAU: 1:00 O'R GLOCH – 06/07/2018

Yn dilyn sesiynau hyfforddiant a gwybodaeth yn ddiweddar ar gyfer darpar CALU, mae pecyn cais ar gyfer y garfan nesaf ar gael bellach ar ein [gwefan](#). Sylwch mai'r dyddiad cau yw **1:00 o'r gloch ar 6 Gorffennaf 2018**.

Gwybodaeth Amrywiol ac Arolygon

Cyflwyno Asesiadau Personol ★NEWYDD★

[Cliciwch yma](#) am ddiweddiariad gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cyflwyno asesiadau personol newydd ar-lein o'r flwyddyn academaidd nesaf (2018/2019).

Grant Datblygu Disgyblion – Plant Mewn Gofal - Diddordeb mewn gwneud cais?

Pwrpas y Grant Datblygu Disgyblion yw cael effaith barhaol ar ganlyniadau addysg i blant sy'n derbyn gofal neu blant sydd wedi derbyn gofal yn ffurfiol. Cyfrifoldeb GwE, fel y Consortiwm Addysg ar gyfer Gogledd Cymru yw gweinyddu a chydgysylltu'r grant ar draws ysgolion y rhanbarth. Am ragor o wybodaeth a manylion ar sut i wneud cais, [cliciwch yma](#).

Cyfrifon Trydar Newydd

Eisiau'r manylion diweddaraf gan y Tîm Cyfnod Sylfaen? Neu beth am Brosiect Rhanbarthol Shirley Clarke? Mae gan ein Tîm Cyfnod Sylfaen gyfrif trydar bellach ar gyfer rhannu newyddion diweddaraf – dilynwch nhw ar [@GSylfaen](#). Bydd y diweddaraf am Brosiect Rhanbarthol Shirley Clarke yn cael ei rannu drwy gyfrif [@GwEShirleyC](#) yn ogystal. Dilynwch nhw!!

Ydych chi'n Dysgu trwy Gyfrwng y Gymraeg neu'n Ddwieithog?

Mae Laura Jones, un o ddarlithwyr yn yr Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor wedi lansio arolwg ar-lein i nodi arfer dda a heriau wrth ddarparu mynediad i'r cwricwlwm i ddisgyblion ag AAA sy'n dysgu trwy eu hail iaith.

Mae ymatebion athrawon yn hanfodol wrth helpu i ddatblygu'r dealltwriaeth o arferion cyfredol yn y maes hwn.

Os hoffech chi gwblhau'r arolwg, [cliciwch yma](#).

Ar gael yn awr: Rhifyn Arbennig Dysg am y Cwricwlwm

Y diweddaraf ar ddatblygiadau y Cwricwlwm i Gymru – oll mewn un lle!

[Cliciwch yma](#) am gopi.

Safonau Addysgu Proffesiynol

[Cliciwch yma](#) am gopi drafft o'r canllaw i'ch helpu drwy Safonau Addysgu Proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu yng Nghymru.

Ymchwil i Leoli a Defnyddio Gweithwyr Cymorth Dysgu (LSWs) yn Ysgolion Cynradd yng

Nghymru

YMCHWIL A WNAED GAN BRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD AR RAN LLYWODRAETH CYMRU

Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno casglu tystiolaeth a dealltwriaeth bellach o ystod y tasgau y gofynnir i weithwyr cymorth yn y dosbarth eu cyflawni yn rhan o'u rôl.

[Cliciwch yma](#) i gymryd rhan.

Cyfle i Ddweud eich Dweud ar Arholiadau'r Haf

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae Cymwysterau Cymru'n gwahodd dysgwyr, athrawon, darlithwyr ac unrhyw un sydd â diddordeb yn arholiadau'r haf, i rannu eu barn drwy lenwi holiadur byr ar-lein. Mae'r holiadur r agor rhwng **8 Mai a 6 Gorffennaf**.

I lenwi'r holiadur, [cliciwch yma](#).

Hyfforddiant Estyn ar gyfer Arolygwyr Cymheiriaid

Mae Estyn yn chwilio am benaethiaid neu uwch arweinwyr ysgolion uwchradd i hyfforddi fel Arolygwyr Cymheiriaid. Ymgeiswch erbyn 10 Gorffennaf am 2:00 o'r gloch. [Cliciwch yma](#).

Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Mathemateg

ARWEINWYR MATHEMATEG: BETH YDYCH CHI EI EISIAU? BETH YDYCH CHI EI ANGEN?

Dyma eich cyfle olaf i gwblhau holiadur byr. Anfonwch eich ymatebion erbyn **Dydd Gwener, 20 Gorffennaf 2018**. Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#). I gwblhau'r holiadur, dilynwch y [ddolen hon](#).

Cofiwch ddilyn [@GwEGogleddCymru](#) ar Twitter



GwEGogledd.Cymru

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#)

